Tynnu Llun Gobaith – Cynllun Gwers AAA 11–16

'Helo, fy ffrind' – 60 munud

Yn y sesiwn hon, bydd plant yn rhannu eu hunaniaeth drwy hunanbortreadau. Drwy sylwi ar yr hyn sy'n eu gwneud yn arbennig ac archwilio sut i gynrychioli hyn yn greadigol, bydd disgyblion yn gallu rhannu agweddau arnynt eu hunain gydag eraill nad ydynt yn eu hadnabod, ac a all fodoli ar draws ffiniau dychmygol tir, diwylliant neu ddealltwriaeth.

Deilliannau dysgu

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd myfyrwyr yn gallu:

- Cydnabod y gall hunanbortread ddangos rhywbeth am bwy ydym ni.
- Dewis manylion gweledol syml, lliwiau, gwrthrychau neu eiriau i'w cynrychioli eu hunain.
- Creu hunanbortread gan ddefnyddio deunyddiau hygyrch a phroses gam wrth gam â chymorth.
- Rhannu neu fyfyrio ar eu gwaith celf gydag eraill.

Geirfa allweddol

- Hunanbortread – llun ohonoch chi eich hun.
- Hunaniaeth – pethau sy'n helpu i'ch gwneud chi'n chi, megis diddordebau, hoffterau, teulu, diwylliant, hobïau neu bersonoliaeth.
- Dewis – penderfynu beth rydych am ei gynnwys yn eich gwaith celf.

Paratoi ac adnoddau

Defnyddiwch drefniant dosbarth tawel gyda byrddau clir, cyn lleied o annibendod gweledol â phosibl, ac ardal dawel ar gael i ddisgyblion a allai fod angen seibiant byr. Arddangoswch neu ddarparwch amserlen weledol syml ar gyfer y sesiwn.

- **Cyflwyniad Arlunio Gobaith**
- **ARGRAFFU – Canllaw Gwaith Celf**
- **ARGRAFFU – Hunanbortreadau Arlunio Gobaith**
- **ARGRAFFU – Cardiau Dewis**
- **ARGRAFFU – Amlinelliad Wyneb** neu bapur arlunio gwag
- **ARGRAFFU – Taflen Fyfyrio –** Un i'w llenwi fel dosbarth
- **Drychau** neu luniau printiedig o'r disgyblion
- **Pensiliau, pensiliau lliw, paent, creonau neu ffyn paent**
- **Amserydd gweledol**
- **Cymorth cyfathrebu**, megis byrddau nawr/nesaf, symbolau, dechreuwyr brawddegau neu ddyfeisiau AAC
- **Cymorth synhwyraidd dewisol**, megis gafaelion pensil, byrddau gogwydd, padiau glin â phwysau neu glustffonau lleihau sŵn

Amseru	Gweithgaredd
5 munud	SLEID 1 - Croeso Rhannwch yr amserlen weledol: croeso, edrych, dewis, arlunio, gorffen, myfyrio. Esboniwch y bydd pawb heddiw yn gwneud hunanbortread: llun sy'n dangos rhywbeth amdanynt eu hunain. *Mae hunanbortread yn llun ohonoch chi. Nid oes rhaid iddo edrych yn berffaith. Gall ddangos eich wyneb, eich hoff bethau, eich lliwiau, eich hobïau, neu rywbeth pwysig i chi.* *Heddiw rydym yn mynd i wneud hunanbortread a rhannu rhywbeth arbennig amdanom ein hunain.*
10 munud Adnoddau *Hunanbortreadau* *Arlunio Gobaith* *Cardiau Dewis*	SLEID 2 - Edrych Rhannwch yr enghreifftiau o hunanbortreadau. Gofynnwch i'r disgyblion bwyntio at neu enwi'r hyn y gallant ei weld: lliwiau, wyneb, gwallt, dillad, gwrthrychau, ysgrifennu neu gefndir. Defnyddiwch gardiau dewis i gefnogi ymatebion. Gall disgyblion ateb drwy siarad, pwyntio, dal cerdyn i fyny, defnyddio AAC, arwyddo neu arlunio. • *Pa liwiau allwch chi eu gweld?* • *Pa wrthrychau allwch chi eu gweld?* • *Beth allai'r person hwn ei hoffi?* • *Beth yn y lluniau sy'n debyg i chi?* *Mae pawb yn wahanol, ond mae llawer o bethau sy'n debyg amdanom ni hefyd.*
10 munud Adnoddau *Cardiau dewis*	SLEID 3 – Dewis: Syniadau "Amdanaf i" Gwahoddwch y disgyblion i ddewis dau neu dri pheth am eu hunaniaeth yr hoffent efallai eu cynnwys yn eu hunanbortread – lliwiau a ddewiswyd, hobïau, anifeiliaid, bwydydd, lleoedd, cerddoriaeth, chwaraeon, teulu, ffrindiau, hoff wrthrychau neu air amdanynt eu hunain. Gallwch ddefnyddio'r hobïau a'r lliwiau o'r **cardiau dewis** neu ychwanegu atynt gyda'ch adnoddau eich hun sy'n benodol i'ch disgyblion. Gall oedolion ysgrifennu syniadau ar ran disgyblion neu gall disgyblion gylchu, pwyntio at, gludo neu arlunio eu dewisiadau. I ddisgyblion sy'n ei chael hi'n anodd dewis, cynigiwch ddewis cyfyngedig o ddau opsiwn ar y tro.
30 munud Adnoddau *Papur neu amlinelliadau wyneb* *Drychau neu luniau* *Deunyddiau arlunio a chelf* *Amserydd gweledol*	SLEID 4 – Lluniadu Modelwch broses fer gam wrth gam ar y bwrdd neu o dan weledydd. Cadwch bob cam yn ddewisol a chaniatewch i ddisgyblion weithio mewn trefn wahanol os yw hyn yn cefnogi hunanreoleiddio a hyder. 1. Dewiswch bapur gwag neu amlinelliad wyneb. 2. Ychwanegwch nodweddion, gwallt a manylion portread eraill. 3. Ychwanegwch un gair, enw, cyfarchiad neu neges fer o amgylch eu pen. 4. Ychwanegwch liwiau, patrymau a chefndir. Mae oedolion yn cefnogi drwy annog dewisiadau, helpu gyda mynediad symudol a phwysleisio y gall pob portread edrych yn wahanol. Gall disgyblion nad ydynt am arlunio wyneb greu hunanbortread gan ddefnyddio siapiau, lliwiau, gwrthrychau neu eiriau.

	Rhowch rybudd clir o bum munud gan ddefnyddio'r amserydd gweledol. Gwahoddwch y disgyblion i orffen un manylyn olaf.
5 munud Adnoddau *Taflen fyfyrio*	SLEID 5 – Myfyrio Cefnogwch y disgyblion i edrych ar waith celf ei gilydd a dewis rhywbeth sy'n debyg a rhywbeth sy'n wahanol. Llenwch **Daflen Fyfyrio** gan ddefnyddio ymatebion y disgyblion. Ar ddiwedd y wers, sicrhewch fod enw ac oedran pob plentyn wedi'u hysgrifennu'n glir ar flaen neu gefn eu gwaith celf. Gweler **Trosolwg y Prosiect** am ganllawiau cyflwyno.